Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Elin Maher

Cwmni/Corff Rhieni Dros Addysg Gymraeg

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Anodd yw troi sianel unwaith mae plentyn wedi darganfod math o raglen y mae'n ei fwynhau. Braf fyddai medru cadw sylw'r plentyn a'i weld yn dewis mynd at y rhaglen Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg ond ar hyn o bryd nid yw'r dewis ehangach yno ar hyn o bryd.

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Ydw

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Nac ydw

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Rhaid i sianel newydd fod ag oriau cyson. Yn yr oes uniongyrchol hon, mae plant yn gynulleidfa sy'n gofyn am ymdrech gyson i'w cadw'n hapus ac wedi eu diddanu'n gyson!

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Cysondeb ansawdd - o ran traw ac iaith
Cynllunio gofalus - sicrhau bod cynhyrchwyr y rhaglenni yn ymwybodol o'r anghenion addysgiadol y cwricwlwm a'r datblygiadau diweddaraf mewn cynllunio addysg cenedlaethol a rhyngwladol a bod hyn yn cael ei blethu i mewn i fformiwla'r rhaglen. Mae modd gwneud hyn i greu rhaglenni sydd ddim yn amlwg addysgiadol.
Cysondeb i'r gwyliwr - sicrhau fod argaeledd y sianel yn gyson fel bod S4C yn tyfu i fod yn rhan naturiol o amser hamdden plentyn.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Dylid ymdrechu i sicrhau trydydd parti i gario darllediadau'r Cynulliad a chael sianel gyson lawn i blant. Yn sgil datblygiad Addysg Gymraeg ar hyd a lled Cymru, mae cael sianel lawn Gymraeg i blant yn hanfodol i sicrhau bod plant yn cysylltu'r Gymraeg â'u cartrefi ac ag amser hamdden. Mae'n nodi'n glir i rieni fod y sianel hefyd yn ymroi at gefnogi rhieni wrth i'w plant ddilyn llwybr Addysg Gymraeg a thyfu i fod yn unigolion dwyieithog.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Gorau po gyntaf!